**Trysorlys Cymru Hydref 2015 – Rhagfyr 2016**

**Ymgysylltu ar y polisi trethi**

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol ar y gwaith o ddatblygu trethi Cymru a'u rhoi ar waith. Yn ei Fframwaith Polisi Trethi (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017), datganodd ei fwriad i barhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â busnesau a rhanddeiliaid eraill, gan nodi y byddai cefnogi swyddi a thwf yn flaenoriaeth allweddol i drethi Cymru.

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2015 a mis Rhagfyr 2016, parhaodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ac yna Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol ar drethi datganoledig drwy eu Grŵp Cynghorol ar Drethi, sy'n cynnwys yr aelodau canlynol:

- CBI Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas y Cyfreithwyr
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Geldards LLP
- Sefydliad Astudiaethau Cyllid
- Sefydliad Bevan
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr
- TUC Cymru

Mae Fforwm Trethi Trysorlys Cymru yn rhoi cyfle i ymgysylltu â busnesau, gweithwyr trethi proffesiynol a rhanddeiliaid eraill yn ehangach. Cynhaliwyd pum cyfarfod yn ystod y cyfnod (Tachwedd 2015, Mawrth 2016, Mehefin 2016, Gorffennaf 2016 a Rhagfyr 2016), a'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth oedd cadeirydd y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2016.

Cafodd Grwpiau Arbenigwyr Technegol eu sefydlu gan Drysorlys Cymru er mwyn galluogi'r diwydiant, ymarferwyr trethi a rhanddeiliaid i gyfrannu'n fanwl at y polisi trethi. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rheolaidd â'r grŵp neu'r aelodau unigol yn ystod y cyfnod er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, gan gynnwys deddfwriaeth.

Cynhaliwyd gweithdai i randdeiliaid er mwyn datblygu Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ystod y cyfnod hwn (Rhagfyr 2015, Mawrth 2016), a denwyd ystod o bobl gan gynnwys gweithredwyr safleoedd tirlenwi a'r trydydd sector.

Cwblhawyd asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer y ddau Fil treth (Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 a Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017), a oedd yn manylu ar y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth, ynghyd ag asesiadau effaith penodol a oedd yn ystyried effaith y trethi datganoledig ar fusnesau.

**Ymgysylltu ar gyllidebu a Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2015 a mis Rhagfyr 2016, parhaodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ac yna Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i ymgysylltu â phartneriaid er mwyn llywio ein penderfyniadau cyllidebu a bwrw ymlaen â rhoi Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar waith. Roedd y gwaith ymgysylltu hwn hefyd wedi annog trafodaeth ar effaith cyllidebau Llywodraeth y DU a'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar Lywodraeth Cymru ac economi Cymru, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ohonynt.

Roedd y gwaith ymgysylltu yn cynnwys cyfarfodydd â grwpiau rhanddeiliaid, cynadleddau a gwaith ar y cyd ar lefel swyddogol gyda sefydliadau, gan gynnwys:

- Cyngor Adnewyddu'r Economi
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu
- Sefydliad y Peirianwyr Sifil
- Y Gymdeithas ar gyfer Ymgynghori a Pheirianneg
- Y Gymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil
- Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru

**Ymgysylltu ar Gyllid Arloesol**

Yn ystod y cyfnod hwn, datblygodd y tîm Cyllid Arloesol y Model Buddsoddi Cydfuddiannol, ac ymgysylltwyd yn fanwl â'r marchnadoedd Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat, yn ogystal â'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Arbenigedd ar Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat ac ystadegwyr o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Eurostat.

Dros y cyfnod hwn, cafwyd sawl trafodaeth ar lefel swyddogol ar ystod o brosiectau (A465, Canolfan Ganser Felindre a'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif) gydag arweinwyr o'r sectorau cyllid, adeiladu a chynghori.

Fodd bynnag, am y cafodd y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Chwefror 2017, nid ymgysylltwyd yn ffurfiol â Gweinidogion ar yr agwedd hon ar Drysorlys Cymru dros y cyfnod a nodwyd.